# Gwybodaeth Gyffredinol

Annwyl Arweinydd / Rhiant / Gwarcheidwad

Rydym yn edrych ymlaen at groesawu eich plentyn/grŵp i Wersyll yr Urdd Caerdydd. Mae'r ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth am y gwersyll a fydd yn sicrhau eich bod chi'n cael ymweliad diogel a dymunol.

**BETH SYDD ANGEN:**

1. Sach gysgu
2. Dillad nos, bag ymolchi a thywel.
3. Dillad sbâr gan gynnwys siwmper gynnes ac anorac neu got law.
4. Esgidiau addas ar gyfer cerdded.
5. Bag dydd i gario pecyn bwyd.

**** Gwnewch yn siŵr bod enw eich plentyn ar bob dilledyn / eiddo.**

**BETH SYDD DDIM ANGEN:**
Peidiwch â gadael i blant ddod ag eiddo personol drud fel ipods, ffonau symudol, consolau gemau, ac ati i'r gwersyll. Oherwydd rheoliadau Iechyd a Diogelwch pe bai'ch plentyn yn dod â chyllell boced, bydd yn cael ei chasglu ar ddechrau'r cwrs a'i chadw nes iddo adael. Gellir gadael unrhyw bethau gwerthfawr eraill yn y swyddfa i'w cadw'n ddiogel e.e. camerâu, pasbortau, arian ac ati ac yn cael eu defnyddio yn ôl yr angen.

**** Nodwch nad yw Gwersyll Caerdydd yn cymryd cyfrifoldeb am unrhyw eiddo personol**

**LLETY**
Mae gennym 29 ystafell yma yng Ngwersyll Caerdydd, gyda'r mwyafrif ohonyn nhw'n cysgu hyd at 6 o bobl. Mae gwres canolog a chyfleuster en-suite ym mhob ystafell. Bydd arweinydd y grŵp yn gyfrifol am drefnu a phennu'r ystafelloedd. Mae'r plant yn gyfrifol am wneud eu gwlâu a chadw eu hystafelloedd yn daclus. Rydym yn sicrhau bod pob plentyn yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng, a ble i ddod o hyd i help os oes angen ar unrhyw adeg.

**PRYDAU**
Darperir tri phryd bob dydd, brecwast, cinio a swper - gydag amrywiaeth o fwydydd at ddant pawb. Darperir yr holl arlwyo gan Ganolfan Mileniwm Cymru, felly rhowch wybod i ni am unrhyw alergeddau a gofynion diet arbennig e.e. alergedd i gnau, dim glwten, diabetig, dim cynhyrchion llaeth, ac ati - rhowch wybod i ni bythefnos ymlaen llaw fel y gellir gwneud y trefniadau angenrheidiol. Cofiwch gynnwys y wybodaeth hon ar y Dystysgrif Iechyd hefyd. Mae prydau llysieuol ar gael bob amser bwyd. Mae peiriant diodydd a pheiriant oeri dŵr ar gael trwy'r dydd.

**Y FFôN**
Peidiwch â threfnu i'r plant ffonio adref yn ystod yr ymweliad. Os na fyddwch yn clywed gennym, gallwch fod yn sicr bod eich plentyn yn ddiogel ac yn iach. Sicrhewch y byddwn yn cysylltu â staff a rhieni ar unwaith os oes problem gydag iechyd neu hiraeth sylweddol. Os oes gennych neges ar gyfer un o'r plant, mae croeso i chi gysylltu â'r swyddfa (029 20635678) neu e-bostio (Caerdydd@urdd.org). Bydd y Rheolwr ar Ddyletswydd yn sicrhau bod y neges yn cael ei throsglwyddo.

**GOFAL**
Bydd arweinydd y grŵp yn trefnu'r cwrs ar y cyd â rheolwyr y gwersyll. Rydyn ni'n sicrhau bod y plant bob amser yn gwybod ble i droi mewn argyfwng, yn ystod y dydd a nos. Mae gwyliwr nos ar ddyletswydd trwy gydol y nos. Yn ogystal, mae camerâu diogelwch ledled yr adeilad. Mae gan bob ystafell a choridor system cardiau allwedd electronig unigryw i sicrhau diogelwch. Hefyd, mae holl staff y gwersyll wedi cael ymchwiliad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Fel gwersyll sydd wedi'i gynllunio a'i ddatblygu er budd plant a phobl ifanc, disgwylir i oedolion weithredu'n briodol bob amser yn ystod eu hymweliad â'r Gwersyll. Disgwylir i arweinwyr fod ar gael bob amser i fynd gyda phlentyn i'r ysbyty neu i ddangos arweinyddiaeth effeithiol ar adeg o argyfwng. Disgwylir i oedolion sydd mewn swydd o awdurdod ddilyn Cod Ymddygiad eu cyflogwr tra'u bod yn gyfrifol am les plant a phobl ifanc.

**DAMWEINIAU A SALWCH**
Mae staff Cymorth Cyntaf cymwysedig ar ddyletswydd 24 awr y dydd. Mae gennym bolisïau a chanllawiau manwl ar gyfer pob agwedd o redeg y gwersyll. Mae copïau ar gael i'w harchwilio.

**DISGYBLU**
Er mwyn sicrhau bod y gwersyll yn rhedeg yn esmwyth, mae'n amlwg bod angen ychydig o reolau syml a synhwyrol. Gwneir y rhain yn amlwg i blant wrth iddynt gyrraedd, a'n polisi yw eu gweinyddu mewn ysbryd teg a chydymdeimladol. Ein nod yw sicrhau amser hapus i bawb yn y gwersyll. Os yw plant yn anwybyddu'r rheolau hyn, yna mae posibilrwydd y cânt eu hanfon adref. Sylwch na roddir ad-daliad os anfonir plentyn adref mewn achos o dorri rheolau.

**PROBLEMAU**
Sicrhewch fod y plant a'r bobl ifanc yn ymweld â phrif swyddfa'r gwersyll pe bai unrhyw broblemau'n codi fel y gellir delio â'r mater ar unwaith.

**TYSTYSGRIF IECHYD**
Mae'n hanfodol bod pob rhiant/gwarcheidwad yn cwblhau'r DYSTYSGRIF IECHYD amgaeedig a bod copi bob amser ar gael gan yr arweinydd. Gall hyn gynnwys manylion unrhyw salwch neu broblem a allai fod gan y plentyn, a rhif ffôn pe bai angen i ni gysylltu â'r rhieni neu'r teulu.

**CYFARWYDDIAD TÂN**
Rhoddir cyfarwyddyd tân ar bob cwrs i sicrhau bod pob plentyn yn gwybod yn union ble mae'r allanfeydd a ble i fynd mewn argyfyngau. Sylwch fod Gwersyll yr Urdd yn gweithredu polisi dim ysmygu.

**FFOTOGRAFFAU**
Gellir dangos ffotograffau o weithgareddau ar ein gwefan a'n deunyddiau hysbysebu. Os nad ydych am i'ch plentyn gael ei gynnwys yn y lluniau hyn, rhowch wybod i ni ar y Dystysgrif Iechyd.

**YSWIRIANT**
Mae gan yr Urdd yswiriant atebolrwydd cyhoeddus trydydd parti am £20 miliwn rhag ofn y bydd unrhyw esgeulustod yn ein trefniadau. Nid oes Yswiriant Personol wedi'i gynnwys yn y pris. Pe bai rhieni'n dymuno cael yswiriant ar gyfer damweiniau personol, salwch, eiddo coll ac ati, dylent wneud eu trefniadau eu hunain.

**CWYNION**
Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â threfniadau’r Gwersyll neu unrhyw broblem sy’n codi o’r ymweliad nad aethpwyd i’r afael â hi eisoes, yna cysylltwch â ni ar unwaith.

Rydym yn edrych ymlaen at groesawu'ch grŵp i Wersyll yr Urdd Caerdydd. Rydym yn sicr y bydd eich plentyn yn elwa o'r profiad preswyl ac yn ei fwynhau. Byddem yn hapus iawn i ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych. Ffoniwch 029 20635678.

**Swyddfa'r Urdd, Canolfan Mileniwm Cymru, Plas Bute, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 5AL**
**Ffôn:** 029 20635678 **E-bost:** caerdydd@urdd.org **Gwefan:** www.urdd.org/caerdydd